# CYNGOR CYMUNED

# LLANGELYNNIN

# COMMUNITY COUNCIL



## Adroddiad Blynyddol 2021/22

**Mai 2022**

# Cynnwys yr Adroddiad


| Disgrifiad o'r Eitem | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol / Datganiad y Cadeirydd** | 3 |
| 1. Llangelynnin – Ein Ardal ag Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned | 5 |
| 2. Cynghorwyr | 6 |
| 2.1 Cynghorwyr | |
| 2.2 Cyfarfodydd yn 2021/22 | |
| 2.3 Is-Bwyllgorau | |
| 3. Manylion Cysylltu a Gwybodaeth | 7 |
| 4. Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | 7 |
| 5. Ein Cyllid a sut mae'r praesept blynyddol yn cael ei wario | 8 |
| 5.1 Incwm | |
| 5.2 Gwariant | |
| 5.3 Rhoddion | |
| 5.4 Archwiliad a Chydymffurfiad | |
| 6. Gweithgareddau | 10 |
| 7. Wedi'w gyflawni | 11 |

**Kevin Goodchild**

Cadeirydd

Cyngor Cymuned Llangelynnin

2021/22



**Datganiad y Cadeirydd**

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn heriol i Gyngor Cymuned Llangelynnin wrth i aelodau ein Cyngor a thrigolion y gymuned symud allan o gyfyngiadau COFID a bywyd yn y gymuned ddechrau dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

Er gwaethaf hyn, gwnaed nifer o lwyddiannau nodedig yn ystod y flwyddyn ac ar ran y Cyngor, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf i Gyngor Cymuned Llangelynnin baratoi, sy'n manylu rhai o'r gwasanaethau yr ydym wedi'u darparu ar gyfer y gymuned, hefyd manylion y trefniadau llywodraethu ac ariannol oedd mewn lle yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gyntaf ac yn bennaf, ni fyddai cyflawniadau'r Cyngor Cymuned yn ystod 2021/22 wedi gallu bod yn bosibl heb ymroddiad a gwaith diflino ein deg Cynghorydd Cymuned di-dâl. Mae'n bleser gennyf adrodd bod cyfraddau presenoldeb rhagorol o 100% wedi'u cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd. Yn ogystal â hyn, croesawodd y Cyngor fewnbwn ac ymrwymiad y Cynghorydd Sir lleol sef Louise Hughes a barhaodd i helpu i roi llais i'n cyfarfodydd cymuned wrth hyrwyddo materion lleol o fewn Cyngor Gwynedd. Hefyd eleni 'roed newid sylweddol i waith gweinyddu'r Cyngor Cymuned pan recriwtiwyd Glerc newydd sef Debbie Taylor-Bond ym mis Hydref 2021, wedi i Glenda Edwards ymddiswyddo. Bydd llawer yn ymwybodol fod Glenda wedi darparu gwasanaeth rhagorol ac ymroddedig yn ei rôl fel Clerc y Cyngor am ddeg mlynedd.

O ran cyflawni dros ein cymuned, parhaodd ein Cynghorwyr i ddarparu eu trefn lywodraethol gref o'r cyngor cymuned trwy gydol y flwyddyn. Mae holl aelodau'r Cyngor yn ddi-dâl am y gwaith y maent yn ei wneud yn y gymuned ac maent wedi treulio oriau lawer o'u hamser yn cyfathrebu â thrigolion, yn clirio sbwriel o'r traeth, yn checio biniau graean, yn cludo nwyddau sydd eu hangen, yn trwsio ac yn atgyweirio, yn archwilio ac adrodd am faterion yn y pentrefi, cynorthwyo trigolion i dorri llwyni, cynrychioli'r gymuned mewn digwyddiadau cyhoeddus gan gynnwys Sul y Cofio ac ymateb i ymgynghoriadau llywodraethol a nifer o geisiadau cynllunio.

O bwys eleni, trefnodd y Cyngor gynllun i gefnogi adlinio ceg yr Afon Gwril. Cyn i'r gwaith gael ei wneud roedd yn rhaid i'r cyngor wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am "Drwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd". Mae'r ardal o'r traeth dan sylw yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ac felly roedd nifer o amodau ynghylch sut a phryd y gellid gwneud y gwaith. Cymerodd y cais sawl mis i'w benderfynu, oherwydd rhwystrau Cofid-19, ond fe'i cyhoeddwyd yn derfynol am gyfnod o bedair blynedd ar gost o £360 ym mis Gorffennaf 2021. Gwnaed cais llwyddiannus gan y Cyngor Cumuned am arian i dalu am gost y cloddwr a'r gweithredwr, gan Gyngor Gwynedd.

Hawliau Tramwy'r Cyngor - nôd yr ymyriad oedd gwneud mynediad i'r traeth a'r cylchdaith yn fwy diogel. Nid yw'n ateb parhaol, ond mae'r gwaith a wnaed ym mis Hydref 2021 wedi bod yn llwyddiannus hyd yma, ond efallai y bydd yn rhaid ail wneud y gwaith eto yn y dyfodol os bydd amgylchiadau'n mynnu.

Ein preswylwyr yw ein llygaid a’n clustiau o fewn y gymuned ac mae eich adborth a’ch gwybodaeth wedi ein helpu i flaenoriaethu’r gwaith sydd ei angen i gynnal a gwella ein hardal leol. Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cyfraniad parhaus a gobeithiaf y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol. Dylid gyfeirio'n arbennig at y rhodd hael gan Buddug Jones sy'n cael ei ddefnyddio i brynu offer ffitrwydd ar gyfer oedolion, i’r cae chwarae yn Llwyngwril. Diolch hefyd i deulu Roberts’ Tudfarch, sydd wedi rhoi Coeden Nadolig i Lwyngwril ers blynyddoedd lawer.

Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn praesept blynyddol a ddefnyddir i gefnogi amcanion y gymuned, a chydymffurfiaeth y Cyngor Cymuned wrth gyflawni eu dyletswyddau a gofalu am yr amgylchedd. Mae’r Cyngor hefyd yn cefnogi cynnal a chadw a stiwardiaeth ein hasedau cymunedol a hyrwyddo meysydd cyhoeddus o bwysigrwydd, er ein mwynhad o'r ardal, ac er lles iechyd trigolion y gymuned.

Er gwaethaf y cynnydd blynyddol mewn costau byw, ni wnaeth y Cyngor Cymuned gais am gynnydd yn y praesept blynyddol ar gyfer ein cymuned yn 2021/22, sydd wedi aros ar £9,800 am y tair blynedd diwethaf. Cyflawnwyd hyn trwy reolaeth ariannol gref, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr lle bo modd a chanfod y prisiau gorau posib, i ddarparu'r gwerth gorau am arian ym mhopeth a wnawn.

Yn gryno, wrth edrych ar y gwaith a wnaed yn ystod 2021/22, gallaf adrodd inni barhau i fuddsoddi mewn gwella’r gymuned leol drwy gynnal a chadw’r cae chwarae, llwyni a llwybrau cyhoeddus, diogelu’r Cof Golofn, cyfleusterau cyhoeddus, meinciau a hysbysfyrddau. Yn ogystal a hyn oll, rhoddodd y cyngor cymuned arian tuag at gronfeydd Y Ganolfan a Mynwenti Llangelynnin.


‘Roedd prosiectau allweddol yn cynnwys cais llwyddiannus am grant (prosiectau bach) o £250 gan Barc Cenedlaethol Eryri, i gynorthwyo gyda gosod mainc newydd yn Rhoslefain. Mae'r fainc newydd hon wedi'i hadeiladu â phlastig wedi'i ailgylchu, a'r gobaith yw y bydd angen llai o waith cynnal a chadw yn y tymor hir. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd wedi sicrhau cyllid gan Gyngor Gwynedd i gynorthwyo gyda'r gwaith o osod llwybrau o amgylch yr Afon Gwril.

Heb os nac oni bai, mae’r gwaith a wnaed gan holl aelodau’r Cyngor Cymuned a mewnbwn y trigolion, yn ystod y cyfnod heriol a ddaeth i’n rhan gan y pandemig coronafeirws, wedi cynorthwyo i helpu i wella Llangelynnin ar gyfer ein cymuned a’n hymwelwyr niferus â’r ardal.

**Kevin Goodchild: Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangelynnin**

**Dyddiad: 07.04.2022**

# 1. Llangelynnin
# Ein Ardal ag Adroddiad Blynyddol ein Cyngor Cymuned




LLANGELYNNIN

Ardal Cyngor Cymuned Llangelynnin

Mae Llangelynnin o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin boblogaeth o 562 ar y Gofrestr o Etholwyr (01.12.2016), gyda Ward Cymuned Llangelynnin yn cynnwys ardal

Rhoslefain a Llwyngwril.

- **Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned - 2021/22.**

Ym mis Chwefror 2021 hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod dyletswydd newydd wedi'w chyflwyno, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru), fod cynghorau cymuned i gynhyrchu adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ar ôl 1af o Ebrill 2022, ac yn flynyddol wedi hynny.

Nid oes templed ar gyfer adroddiad blynyddol cynghorau cymuned, gan y disgwylir i fformat a lefel y manylder adlewyrchu maint a gweithgareddau'r cynghorau. Fodd bynnag, pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Cyngor Cymuned fanylu ar eu trefniadau llywodraethu ac ariannol, i adrodd a dangos y gwaith a wnaed i ddelio gydag unrhyw bryderon lleol a gwella'r ardal leol dros y flwyddyn.

Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Cyngor Cymuned Llangelynnin, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.


# 2. Cynghorwyr

Mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin ddeg aelod etholedig sy'n cynnal deg cyfarfod ffurfiol y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd ar ail ddydd Mercher y mis ac eithrio Ebrill ac Awst pan nad oes cyfarfodydd.

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd bob blwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. Mae Cynghorwyr Cymuned yn cael eu hethol bob pum mlynedd. Bydd yr etholiad nesaf yn 2022. Mae'r Cynghorwyr presennol yn aelodau o'r Cyngor Cymuned hyd Mai 2022. Gwahoddir Cynghorydd Sir y Ward i fynychu pob cyfarfod.

## 2.1 Ein Cynghorwyr yn 2021/22

Yn ystod y flwyddyn 2021/22 roedd yr aelodau etholedig yn cynnwys: -




**Cynghorydd Sirol** - Mrs Louise Hughes

**Clerc y Cyngor Cymuned -** rhwng Ebrill 2021 a Thachwedd 2021 **-** Glenda Edwards

rhwng Tachwedd 2021 a Mawrth 2022 - Debbie Taylor-Bond

## 2.2 Cyfarfodydd yn 2021/22

Yn 2021/22, cynhaliwyd un-ar-ddeg o gyfarfodydd ffurfiol ar y dyddiadau a ganlyn:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill – dim cyfarfod | Mai – 12.05.21 (AGM) | Mehefin – 09.06.21 | Gorffennaf - 14.07.21 |
| Awst - 11.08.21 | Medi – 08.09.21 | Hydref – 13.10.21 | Tachwedd – 10.11.21 |
| Rhagfyr - 08.12.21 | Ionawr – 26.01.22 | Chwefror – 09.02.22 | Mawrth – 09.03.22 |

'Roedd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd i gyd ar gael – wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau mewnol ac allanol Y Ganolfan, ac ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

## 3. Manylion Cysylltu a Gwybodaeth

**Prif gyswllt y Cyngor Cymuned yw:**

**Clerc** – Mrs Debbie Taylor-Bond

Plas Y Machlud

Stad Gwastadgoed Isaf

Llwyngwril

LL37 2LA

☎ **01341 250 817** / Ffon symudol: 07830 536 645

**clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk**

Arddangosir cofnodion y cyfarfodydd ar yr hysbysfyrddau allanol a mewnol yn Y Ganolfan ac ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

Arddangosir dyddiadau'r cyfarfodydd ar yr hysbysfwrdd mewnol ac allanol yn Y Ganolfan ac ar yr hysbysfwrdd yn Rhoslefain, ac hefyd ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

## 4. Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

Mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin nifer o bolisïau i gefnogi llywodraethu'r Cyngor sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Côd Ymddygiad i Aelodau

Polisi Iaith

Polisi Amgylcheddol

Polisi Rhoddion


GDPR

Cofrestr Asedau


Polisi Diogelwch - COFID-19

## 5. Ein Cyllid a sut mae'r praesept blynyddol yn cael ei wario

5.1 **Incwm** - Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd yn 2021/22 oedd £10,760.88.





**5.2 Gwariant** – Yn 2021/22 cyfanswm y gwariant oedd £10,708.55. 'Roedd gwaith cynnal a chadw yn rhan o'r gwariant uchaf yn ystod y flwyddyn ac roedd hyn yn cynnwys cyfraniad at gynnal a chadw'r toiledau cyhoeddus, torri gwair yn yr ardal gan gynnwys y cae chwarae, meinciau newydd, gwaith i'r llwybr cyhoeddus ger yr afon. 'Roedd yr ail faes gwariant mwyaf yn ymwneud â chostau rhedeg y cyngor gan gynnwys yswiriant, taliadau archwilio, cyflogau clercod, trwyddedau ac aelodaeth Io Un Llais Cymru.



‘Roedd sawl eitem o wariant heb ei gynllunio a ddigwyddodd drwy gydol y flwyddyn a ychwanegodd  hyn £826.00 at gostau na nodwyd wrth osod y gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn. ‘Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno taliadau banc a ddigwyddodd o fis Tachwedd ymlaen, cost trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru, gwaith trydanol ar gyfer y goleuadau i’r Coed Nadolig, hysbysebu swydd wag ar gyfer clerc newydd, mainc newydd yn Rhoslefain a gwaith i ddelio â phroblem gyda thyrchod daear yn y cae chwarae. Cynorthwywyd ac arbedwyd arian ar gyfer yr eitemau hyn gan wneud arbedion drwy beidio â gorfod talu am ail-lenwi'r biniau halen.

### 5.3 Rhoddion - 2021/22

Yn 2021/22 derbyniodd y Cyngor Cymuned gyfraniad hael iawn o £4,000.00 gan unigolun lleol, ar gyfer prynu offer ffitrwydd i oedolion, i’w gosod yn y cae chwarae. Mae'r offer hwn wedi'i archebu a bwriedir ei osod yn ei le yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Gwnaeth Gyngor Cymuned Llangelynnin nifer o roddion elusennol yn 2021/22, gwerth cyfanswm o £1,800.00 i helpu i gefnogi parhad gwasanaethau pwysig a sefydliadau lleol.




### 5.4 Archwiliad a Chydymffurfiaeth

Fel Cyngor Cymuned bach mae nifer o gamau ariannol blynyddol y mae angen eu cwblhau trwy gydol y flwyddyn. Yn 2021/22 roedd y camau archwilio yn cynnwys cwblhau a chymeradwyo’r gweithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn flaenorol 2020/21. Roedd hyn yn cynnwys paratoi'r gyllideb a chyfrifon y cyngor cymuned, derbyn y ffurflen flynyddol gan yr archwilwyr allanol a’i chwblhau yn barod i gael ei chymeradwyo gan yr aelodau ai arwyddo gan y cadeirydd, paratoi’r llyfr cyfrifon am y flwyddyn, trefnu archwiliad mewnol ac allanol ac arddangos y dogfenau priodol a  rhybudd o hawliau’r etholwyr ar yr hysbysfwrdd ac ar wefan y Cyngor Cymuned.

Cawsom hysbysiad fod Archwiliad wedi’i gwblhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ym mis Mawrth 2022. Derbyniwyd hwn yn hwyrach na’r arfer oherwydd oedi a achoswyd gan gyfyngiadau Cofid-19. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad ynghylch yr hawliau archwilio ar 17eg Mawrth 2022 a’i arddangos ar yr hysbysfyrddau yn Rhoslefain, a’r hysbysfyrddau allanol a mewnol yn Y Ganolfan Llwyngwril ac ar y wefan.

## 6. **Gweithgareddau yn 2021/22 i helpu i wella ein hardal.**

Roedd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Cyngor Cymuned yn 2021/22 yn eang ac amrywiol ac yn cynnwys: -

- Adlinio ceg yr Afon Gwril
- Ymateb i ymgynghoriadau Cyngor Gwynedd ar linellau dwbl melyn
- Ymgynghori ar faterion Hawliau Tramwy lleol a chais am "orchymyn i addasu llwybyr"
- Rhoi gwybod am ddifrod i wal y Cae Chwarae
- Ymateb i Barc Cenedlaethol Eryri ar amodau cynllunio lleol
- Ymgynghori gyda adran priffyrdd – lleihau cyflymder ar yr A493
- Delio gyda cwynion a chwistrellu "Japanese Knotweed"
- Rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd am lwybrau cyhoeddus sydd angen sylw
- Adolygu/derbyn rhaglen waith Priffyrdd Cyngor Gwynedd
- Adroddiad o bryderon diogelwch gyda pharcio ger y Cae Chwarae
- Adroddiadau lawer i Network Rail a lobïo am atgyweiriadau i'r rhwystrau diogelwch rhwng Llwyngwril a Friog. Cyfarfod cynrychiolwyr ar y safle i drafod gwaith sawl gwaith
- Trefnu archwiliad y cae chwarae gyda RoSPA
- Cyd-gysylltu ar ddarparu offer ffitrwydd newydd yn y Cae Chwarae, gan gynnwys trafodaethau ynghylch rhodd gan aelod or gymuned a chyfarfod ar y safle gyda RoSPA
- Rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd am goed a chwyn sydd wedi gordyfu, materion draenio, difrod i waliau terfyn, adnewyddo marciau ar y ffordd
- Cadarnhad o waith cynnal a chadw ar y Gof Golofn
- Ymweliad safle gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd ynglŷn â pharcio rhwystredig ar y brif ffordd yn Llwyngwril
- Trefnu adolygiad o'r mesuriadau tawelu traffig gyda Chyngor Gwynedd a threfnu monitro traffig
- Torri coed a chwyn oedd wedi gordyfu ar Lwybr y Perthi
- Derbyn pecyn plannu coed gan Barc Cenedlaethol Eryri
- Rhoi gwybod am faterion a phroblemau gyda casglu gwastraff i Gyngor Gwynedd
- Ymateb ac adolygu ymgynghoriadau'r Llywodraeth ar gyfer ail gartrefi, y defnydd peryglus o gychod dŵr hamdden ac ar lifogydd ac erydu arfordirol yn yr ardal
- Ymateb i Gyngor Gwynedd ar y Fframwaith Adfywio
- Mynychu Sul y Cofio i gynrychioli'r gymuned leol
- Mynychu'r cyflwyniad ar Ffordd Sant Cadfan, Tywyn
- Glanhau'r Cof Golofn
- Toril a chlirio llwyni a gordyfiant yn Rhoslefain
- Trefnu coed Nadolig yn Llwyngwril a Rhoslefain
- Clirio sbwriel ag ati ar lan y mor, Llwyngwril
- Cyd-gysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch cau ffyrdd ac adrodd ar faterion rheoli traffig.

## 7. Wedi eu gyflawni yn 2021/22.

**DATBLYGIAD LLEOL**
Ymateb i 24 o geisiadau cynllunio

**FFYRDD A PHRIFFYRDD**
Cyswllt gyda Phriffyrdd Gwynedd ar 21 mater priffyrdd

**CYNNAL ASEDAU**
Cais llwyddiannus am grant bychan o £250.00 tuag at fainc newydd

**CYNNAL MYNEDIAD**
Cais llwyddiannus am £498.00 ar gyfer gwaith ger yr Afon Gwril

**RHEOLAETH ARIANNOL**
Dim cynnydd yn y praesept lleol 2019 - 2021

**DIOGELWCH**
Cysylltu â Network Rail i helpu gyda'r cynllun i flaenoriaethu adnewyddu rhwystrau diogelwch

**CYNRYCHIOLI ANGHENION CYMUNEDOL**
5 ymweliad safle gyda sefydliadau gan gynnwys Priffyrdd Gwynedd/Network Rail/RoSPA

**CYNRYCHIOLAETH**
Cyflawnodd dros 85% o gyfarfodydd y Cyngor bresenoldeb o 100%.

**CYDYMFFURFIAD ARIANNOL**
Archwiliad llwyddiannus wedi'i gyflawni ar gyfer 2020/21

**LLYWODRAETHU DA**
Diweddaru polisi iaith, polisi rhoddion a pholisi amgylcheddol, cofrestr asedau.

**CYNRYCHIOLAETH GYMUNEDOL**
Cynrychioli ardal Llangelynnin mewn digwyddiad Sul y Cofio yn y pentref ac ymgynghoriad troedffordd Sant Cadfan yn Nhwyn.